Pynciau yr ymdrinnir â hwy - gwybodaeth broffesiynol ddiweddaraf i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau i bobl gyda dementia - staff cymwysedig

Lefel 3 **Amser -** 7.5 awr

Nodau ac amcanion - rhoi gwybodaeth ddiweddaraf ar ddulliau newydd a diweddar ym maes gofal dementia, a rhoi trosolwg o ganllawiau'r llywodraeth. Dylai'r trosolwg hwn o raglenni a darganfyddiadau ymchwil cyfredol, adnoddau sydd ar gael a chanllawiau'r llywodraeth alluogi'r ymarferwr i weld beth yw'r goblygiadau i ymarfer ym maes gofal a rhoi sylw iddynt. Bydd peth o'r cynnwys yn cael ei bennu gan faterion perthnasol i anghenion y rhai fydd yn cymryd rhan.

Cwrs/Rhaglen Ddysgu

Sesiwn 1

- Cyflwyniad i'r diwrnod
- Beth hoffech chi ei gael o ddod yma heddiw? Cyfle i gynnwys yn y rhaglen faterion sy'n bwysig i chi mewn perthynas â gofal dementia.*

Sesiwn 2

- Dulliau presennol o ymdrin â gofal dementia - ymarfer wedi'i seilio ar dystiolaeth.
- Gofal ar sail tystiolaeth ar waith - yn cynnwys DVD

Egwyl

Sesiwn 3

- Ymchwil a goblygiadau hynny i bobl gyda dementia ac i ofalu amdanynt.

Sesiwn 4

- *Amser pwnc agored - rhoi sylw i faterion a godwyd yn sesiwn 1

Cinio

Sesiwn 5

- Canllawiau'r llywodraeth - yn cynnwys Cynllun Gweithredu Dementia i Gymru; goblygiadau a pherthnasedd i ymarfer.

Sesiwn 6

- *Sesiwn agored (fel ag i sesiwn 4)

Egwyl

Sesiwn 7

- adnoddau - llyfrau, hyfforddiant, gwefannau, canfod gwybodaeth, asiantaethau eraill. Crynodeb a gwerthuso

Cyfryngau dysgu - darlith, DVD, trafodaeth grŵp, cyflwyniad PowerPoint, gwaith grŵp, deunydd darllen, taflenni, astudiaeth achos. Mae'r costau'n dibynnu p'un a gynhelir y cwrs gan DSDC neu y caiff ei gomisiynu gan sefydliad unigol.